

## CYFFES FFYDD

### 4. Am bersonau y Drindod

Er mai un Duw sydd, ac na ddichon fod ond un gwir Dduw, eto, yn ôl tystiolaeth yr Ysgrythur Lân, y mae yn Nuw **Dri** o Bersonau, sef y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; a'r Tri hyn yn gyd-dragwyddol a gogyfuwch, heb un cyn neu wedi ei gilydd, na mwy na llai na'i gilydd ond un Duw ydynt (a). Mae pob un o'r Personau yn wir Dduw, ac nid y naill berson yw y llall; ond nid oes ond un Duw. Nid enwau, swyddau, neu briodolaethau yw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, ond Personau Dwyfol (b); y Tad yn Berson tragwyddol, y Mab yn Berson tragwyddol, a'r Ysbryd Glân yn Berson tragwyddol; eto un Duw tragwyddol. Ac er fod gwahanol swyddau a gweithrediadau yn perthyn i'r naill Berson rhagor y llall yn nhrefn iachawdwriaeth, eto yr un priodolaethau dwyfol sydd iddynt: tragwyddoldeb, hollwybodaeth, hollbresenoldeb, hollalluogrwydd (c), etc., yn y naill Berson Dwyfol fel yn y llall: felly hefyd yr un sancteiddrwydd, daioni, a chariad, etc., yn y Tri Pherson; yr un gwrthrych sydd i gariad y Tri Phersonau (d): ac arfaeth y Drindod yw yr arfaeth dragwyddol. Ac er na allwn amgyffred athrawiaeth y Drindod, dylem ei chredu (e), oblegid felly y mae Duw yn tystiolaethu amdano ei hun; y mae ef yn ei adwaen ei hun yn berffaith, a Duw gwirionedd ydyw; felly y dylem gredu yn ddiysgog ei dystiolaeth ef amdano ei hun.

#### **4. Of the Persons of the Trinity.**

*Though there is but one God, and though there cannot be more than one true God, still it is the clear testimony of Holy Scripture that there are in the Godhead THREE Persons, the Father, the Son, and the Holy Ghost; that these three are co-eternal and co-equal, not one before or after another, not greater or less than another, but one God (a).*

*Everyone of these persons is true God, and the one person is not the other person; nevertheless, there is only one God. The Father, the Son, and the Holy Ghost are not names, offices, or attributes, but divine Persons (b); the Father an eternal Person, the Son an eternal Person, the Holy Ghost an eternal Person; but the three Persons one eternal God. And while distinct offices and operations belong to one Person more than to another in the plan of salvation, still the three Persons have the same divine attributes; the three divine Persons have the same eternity, omniscience, omnipresence, omnipotence etc. (c); the three have the same holiness, goodness, love, etc.; the objects of the love of the three Persons are the same (d); and the eternal decree is the decree of the Trinity. And though we cannot comprehend the doctrine of the Trinity, we ought to believe it (e), because God so testifies concerning himself. God knows himself perfectly, and is the God of truth; consequently, we ought steadfastly to believe his testimony concerning himself.*

**(a) 1 Ioan/1 John 5:7; Math./Matt. 3:16,17, 28:19; 2 Cor. 13:14; Ioan/John 1:1,2,14,18; Ioan/John 15:26; Gal. 4:6.**

**(b) Heb. 1:3; Col. 1:15,16; Actau/Acts 5:3,4, 13:2-4, 15:28, 20:28; Salm/Psa.139:7-10; Ioan/John 5:26; Math./Matt. 17:5.**

**(c) Col. 1:17; Ioan/John 1:1, 21:17; Math/Matt. 18:20;  
Dat./Rev. 1:11; Eseia/Isa. 9:6,; Gen. 1:1; Heb. 9:14; 1 Cor.  
2:10; 1 Cor. 3:16; Luc/Luke 1:35; Actau/Acts 6:10**

**(d) Ioan/John 3:16, 13:1, 14:21, 15:9, 16:14,15,27, 17:11;  
Actau/Acts 4:27; Rhuf./Rom.15:30; 2 Cor. 8:9; Eseia/Isa.  
63:10.**

**(e) Job 11:7-9; Salm/Psa. 145:3; 1 Tim 3:16.**